



Eich cyf/Your ref P-05-918
Ein cyf/Our ref KS/08110/19

Janet Finch-Saunders AC

Government.Committee.Business@llyw.cymru

13 Tachwedd 2019

Annwyl Janet,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 15 Hydref ar ran y Pwyllgor Deisebau ynglŷn â mynediad i'r anabl i orsaf reilffordd Trefforest.

Mae fy swyddogion wedi siarad â Trafnidiaeth Cymru (TC) sydd wedi cadarnhau eu bod wrthi'n datblygu cynlluniau ar gyfer gorsaf Trefforest. Bydd y cynlluniau hynny'n golygu y bydd trefniadau mynediad gwell o lawer yn yr orsaf, yn ogystal â gwell cyfleusterau ar gyfer cwsmeriaid. Mae cynlluniau TC yn cynnwys pont droed hygyrch newydd a mynediad heb risiau o'r stryd i'r trê. Disgwylir i'r gwaith adeiladu ddechrau yn yr orsaf ym mis Medi 2020.

Mae'r gwaith yn Nhrefforest yn cael ei integreiddio â rhaglen gymhleth ac ehangach o waith i weddnewid y rhan hon o'r rhwydwaith rheilffyrdd (sef 'Llinellau Craidd y Cymoedd'), fel rhan o brosiect Metro De Cymru. Mae hwn yn brosiect uchelgeisiol sy'n werth miliynau lawer o bunnoedd, a bydd yn cymryd rhyw bum mlynedd i gynlluniau presennol TC gael eu cwblhau. Mae gan TC lawer iawn o waith adeiladu, gwaith peirianegol a gwaith seilwaith i'w wneud er mwyn uwchraddio'n rhwydwaith rheilffyrdd i sicrhau ei fod yn barod ar gyfer gwasanaethau'r Metro. Mae'r gwaith hwn yn cynnwys trydaneiddio'r rheilffordd, uwchraddio pob gorsaf a'r holl signalau, ac adeiladu gorsafoedd newydd.

Rwyf wedi gofyn i Trafnidiaeth Cymru archwilio'r posibilrwydd o ddechrau dylunio'r gronfa yn gynharach, a allai arwain at ddyddiad adeiladu cynharach. Fodd bynnag, ni ellir gwarantu hyn oherwydd ddibyniaethau cymhleth y prosiect hwn mewn perthynas â'r rhaglen waith ehangach.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Gohebiaeth.Ken.Skates@llyw.cymru
Correspondence.Ken.Skates@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb i ohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn yr un iaith ac ni fydd gohebu yn y Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Unwaith y bydd y Metro wedi'i gwblhau, bydd yn darparu gwasanaethau mwy cyflym, amlach a mwy ecogyfeillgar ar drenau modern, cyfforddus a hygyrch trenau'r Metro.

Yn gywir,

A handwritten signature in black ink, appearing to read 'Ken', written in a cursive style.

Ken Skates AC/AM

Gweinidog yr Economi a Thrafnidiaeth
Minister for Economy and Transport